funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Ebr/Mai 2008

Swyddogion Newydd Cymunedau yn Gyntaf Oldford.

Chwith i dde: Beki Fleming, Phil Roe, Sian Parry a Jack Peatroy.

Pleser yw cyflwyno swyddogion newydd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford fel a ganlyn:

Sian Parry sydd wedi gwasanaethu fel Is-gadeirydd ers dros ddwy flynedd, ac sydd newydd gael ei hethol yn Gadeirydd y Bartneriaeth. Mae Sian yn byw ar Ystâd Oldford ac yn cynrychioli diddordebau'r gymuned.

Jack Peatroy sydd yn aelod newydd o'r Bartneriaeth, yw Is-gadeirydd y Bartneriaeth. Mae Jack hefyd yn byw ar Oldford a bydd yn cynrychioli'r gymuned.

Phil Roe fydd yn parhau fel Trysorydd y Bartneriaeth. Mae Phil yn aelod o'r Bartneriaeth, ac yn gweithio i GAG Coleg Harlech ac mae'n cynrychioli'r sectorau gwirfoddol a busnes.

Beki Fleming sydd wedi cael ei phenodi'n Ysgrifennydd y Bartneriaeth. Mae Beki yn gweithio yng Nghanolfan Teuluol Drws Agored ac mae hi hefyd yn cynrychioli'r sectorau busnes a gwirfoddol.

Estynnwn groeso cynnes i'r swyddogion newydd, a dymunwn y gorau iddynt yn y dyfodol.

THANK YOU

Rydym hefyd am ddiolch i Liz Gannon am ei holl waith caled ac ymroddiad fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Diolch i waith caled a phenderfyniad Liz, mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i gyflawni llawer iawn mewn cyfnod byr.

Yn y rhifyn hwn

Swyddogion newydd	*1*
Straeon Digidol	*2*
Newyddion Oldford Ar-lein	*3*
Diwrnod Pontio'r Cenedlaethau	*4*
Syniadau garddio.	*5*
Cyngor ariannol	*6*

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

Straeon Digidol

Bydd rhai ohonoch yn meddwl beth yw stori ddigidol efallai...mae straeon digidol yn rhoi cyfle i storïwyr hen ac ifanc, profiadol a newydd ddod at ei gilydd mewn gweithdy i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i greu Stori Ddigidol. Trwy ddefnyddio technegau sylfaenol ond effeithiol i ddweud straeon, a'r offer amlgyfryngol diweddaraf, mae pawb yn cael cyfle i ddweud eu stori.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ffotograffiaeth, ysgrifennu sgriptiau sylfaenol neu am wybod sut i ddefnyddio'ch cyfrifiadur mewn dull mwy diddorol a chyffrous, yna gall creu stori ddigidol fod yn addas i chi.

Mae Straeon Digidol yn adrodd hanes profiadau gwirioneddol mewn bywyd, ac mae pob stori mor unigryw â'r unigolyn oedd yn gyfrifol am ei chreu. Y storïwr ei hunan sy'n creu'r stori ddigidol, gan ddefnyddio ei [l]luniau, geiriau a llais ei hunan. Ffilmiau byr, personol, amlgyfryngol yw Straeon Digidol y gall pobl eu creu eu hunain.

Mae pobl o bob oed a gallu'n creu Straeon Digidol, ac mae nifer fawr ohonynt wedi tystio pa mor fuddiol oedd y profiad. Wrth rannu eu stori gyda ffrindiau a theulu, neu drwy ei dangos ar y we, maent yn dod o hyd i lais newydd.

Mae gan bawb stori i'w hadrodd. Yn ddiweddar cynhaliwyd diwrnod o adrodd straeon digidol i bontio'r cenedlaethau yn Ysgol Babanod Oldford. Roedd yn gyfle gwych i'r plant ryngweithio gyda'r genhedlaeth hŷn. Bu'r plant yn chwarae marblis, dominôs a gemau traddodiadol eraill, a'r bobl hŷn yn rhoi cynnig ar y Nintendo Wii! Benthycwyd dillad o oes Fictoria o Amgueddfa Powysland ynghyd ag eitemau ystafelloedd dosbarth, ac roedd staff yr Amgueddfa ar gael i ddangos sut i wehyddu.

Mae Oldford Ar-lein yn cynhyrchu Stori Ddigidol o'r diwrnod, ac wedi recordio straeon y plant a'r oedolion am eu profiadau yn ystod eu plentyndod. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld stori ddigidol gyntaf Oldford.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithdy neu os hoffech wybod mwy, croeso i chi ffonio ni ar 556648

communities first cymunedau yn gyntaf

Sesiynau Blasu



Yng Nghanolfan Teuluol Drws Agored

Dydd Llun 9:30yb– 11:30yb

7fed Ebrill ~ Triniaeth Dwylo a Ioga

14eg Ebrill ~ Coginio prydau rhad

21ain Ebrill ~ Dydy cyfrifiaduron ddim yn brathu

28ain Ebrill ~ Gwneud Ffelt

12fed Mai ~ Gwneud Gemwaith

19eg Mai ~ Adweitheg a Thylino pen yn y dull Indiaidd

Crèche ar gael.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rhian neu Beki ar **556238** neu galwch heibio i'n gweld, gyferbyn ag Ysgol Maes-y-dre.

ACE

Gweithredu i Greu Menter Gymunedol

- Ydych chi rhwng 16 - 30 oed?
- Wedi gadael addysg lawn-amser?
- Oes gennych syniad ar gyfer busnes?
- Hoffech chi ddysgu sgiliau newydd?
- Hoffech chi gyflawni eich potensial?

Os gallwch ateb yn gadarnhaol, yna gall prosiect *ACE* eich helpu.

Ffoniwch swyddog prosiect *ACE* Julie Ralph ar 01982 552831 neu ebostiwch: julie.ralph@powys.gov.uk

Oldford Ar-lein

Newyddion

Pleser yw cael cyhoeddi y bydd Prosiect Oldford Ar-lein yn cael ei ymestyn hyd at ddiwedd mis Mai 2008.

Bydd cwrs Ffotograffiaeth Ddigidol (Lefel Canolradd) yn rhedeg o Ebrill tan fis Mai. Bydd y cwrs cyflwyniad i gyfrifiaduron hefyd yn parhau hyd at ddiwedd mis Mai.

Dyma amserlen newydd Oldford Ar-lein; am fwy o wybodaeth, neu i archebu lle ar un o'r cyrsiau, ffoniwch 556648.

Rydym wedi cael adborth gwych gan y bobl sydd wedi bod ar y ddau gwrs, ac mae pawb wedi mwynhau'r sesiynau'n fawr. Beth am ddod i ymuno â nhw?

AMSERLEN OLDFORD AR-LEIN
Ebrill 1af – Mai 31ain 2008

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
		Mynediad Agored 10.00yb – 12.00yp Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn Hyd at 28ain Mai		Cyflwyniad i Gyfrifiaduron 10.00yb – 12.00yp Tŷ Emerald
Ffotograffiaeth Ddigidol Lefel–Canolradd 1.00yp – 3.00yp Tŷ Emerald				
Clwb Gwaith Cartref 4.00yp – 6.00yp Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn	Clwb Gwaith Cartref 4.00yp – 6.00yp Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn			
		Mynediad Agored 6.00yh – 8.00yh Tŷ Emerald Hyd at 28ain Mai		

LLAIS OLDFORD

Diwrnod Tacluso Oldford

Dydd Sadwrn 26ain Ebrill –

Maes parcio Prince of Wales Drive

Cwrs Blasu Iechyd a Harddwch am ddim

Yn dechrau dydd Llun 14eg Ebrill, am chwe wythnos
1yp ~ 3yp
Canolfan Ieuenctid Y Trallwng

Sesiynau ymarferol mewn triniaeth dwylo a thraed, colur, triniaeth i'r wyneb a mwy
Gofal plant am ddim ar gais

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 556648

Diweddariad: Mae'r cwrs hwn yn llawn, gyda nifer dda yn dod. Os oes gennych ddiddordeb mewn cwrs tebyg, croeso i chi gysylltu â ni, oherwydd mae'n bosibl y gallwn redeg cwrs arall.

communities first cymunedau yn gyntaf

Eich cyfle i ddweud eich dweud!
Sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (IAG) yn 2004
gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys.

Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyngor annibynnol i'r asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd ar hyfforddiant, polisïau, gweithdrefnau a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn helpu gwella'r berthynas rhwng Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a'r gymuned leol, ac yn helpu sicrhau dealltwriaeth well o'u hanghenion.

Mae'r Bwrdd yn awr yn ystyried ehangu aelodau'r Grŵp Ymgynghorol, ac yn chwilio am aelodau newydd fydd yn gallu cynrychioli grŵp lleiafrifol yn yr ardal - e.e. grwpiau pobl hyn neu anabl, pobl ifanc, cymunedau pobl dduon lleiafrifoedd ethnig, y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, y gymuned sipsiwn neu deithwyr, gweithwyr mudol, grwpiau crefyddol neu ffydd.

Mae gwaith y grŵp yn amrywio'n fawr o ddarparu cyngor ar bolisïau lleol megis Polisi Troseddau Casineb, cynlluniau anabledd a Chynllun Cydraddoldeb Rhywiol y Gwasanaeth Prawf i chwarae rôl fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant cychwynnol i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn Swyddogion Heddlu gyda Heddlu Dyfed Powys.

Mae taflenni gwybodaeth a phecynnau recriwtio i'r grŵp ar gael i unrhyw un sydd â chysylltiadau o fewn y gymuned neu sy'n adnabod unigolyn fyddai â diddordeb mewn ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Eirian Rees ar 01267 242156